

## Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

### Ffurflen Cytundeb LCA 2024/25

Dyma eich ffurflen Cytundeb Dysgu.

Enw Ysgol/Coleg

Enw'r myfyriwr

Dyddiad geni'r myfyriwr

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Cyfeirnod cwsmer

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

Gwybodaeth ychwanegol

Rhif Adnabod y Myfyriwr :

### Cytundeb Myfyriwr

#### Darllenwch y cytundeb hwn yn ofalus

Ni fydd modd i ni symud ymlaen gyda'ch cais am LCA os na fydd eich ysgol neu'ch coleg wedi cadarnhau eich bod wedi llofnodi'r cytundeb hwn a nodi'r dyddiad arno.

- Rydw i'n cadarnhau bod yr wybodaeth a gyflwynwyd gennyf yn flaenorol yn gywir o hyd a fy mod wedi rhoi hysbysiad o unrhyw newidiadau iddi yn unol â'r amodau ar gyfer fy nghais gwreiddiol.
- Deallaf y bydd unrhyw ymgais i sicrhau LCA mewn ffordd anonest yn cael ei thrin fel twyll ac y gallai arwain at ddwyn achos troseddol a/neu sifil yn fy erbyn.
- Fel rhan o'r LCA, deallaf y gallai'r wybodaeth a ddarparwyd gennyf gael ei hadolygu fel rhan o archwiliad sampl.

### Iaith gohebiaeth a ffefrir

Pa iaith hoffech chi i ni ddefnyddio pan fyddwn ni'n cyfathrebu gyda chi?

Saesneg

Cymraeg

### Caniatâd i rannu

A ydych chi'n cydsynio i'ch ysgol neu goleg yn rhannu gwybodaeth gyda'ch rhiant (rhieni)/gwarcheidwad (gwarcheidwaid) neu partner?

Ydw

Nac ydw

### Amgylchiadau Eithriadol

A ydych chi ar hyn o bryd yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau esgusodol cyfredol a allai effeithio ar eich presenoldeb (er enghraifft, eich bod yn gofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl neu'n anabl)?

Ydw

Nac ydw

Dylech chi hysbysu eich coleg os ydych yn dod yn ymwybodol ar unrhyw adeg o amgylchiadau esgusodol a allai effeithio ar eich presenoldeb.

### Manylion y Cwrs

Teitl y Cwrs :

Nawr trowch i'r dudalen nesaf

## Meini Prawf Mynychu

- I dderbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), mae'n rhaid i chi fynychu 100% o'r gwersi ar eich amserlen.
- Rhaid i chi fod yn dilyn cwrs cymwys. Rhaid i bob cwrs cymwys fod yn rhaglen addysg academaidd neu alwedigaethol llawn amser sy'n para o leiaf 10 wythnos ac yn cynnwys o leiaf 12 o oriau cyswllt dan arweiniad yr wythnos (er enghraifft, os oes gan gwrs 20 o oriau cyswllt dan arweiniad, rhaid i chi fod yn bresennol ar gyfer pob un o'r 20 awr).
- Gall patrwm rheolaidd o fod yn hwyr effeithio ar daliadau LCA.
- Bydd absenoldebau heb eu hawdurdodi yn effeithio ar daliadau LCA. Telir LCA am absenoldebau awdurdodedig ar yr amodau a ganlyn: Gall dysgwr hunanardystio salwch trwy gysylltu â'r tiwtor personol i egluro pam nad yw'n gallu dod i'r coleg. Ni ellir hunanardystio am fwy na 5 diwrnod am un cyfnod olynol o salwch. Am gyfnodau o salwch sy'n hwy na 5 diwrnod neu am gyfnodau olynol rheolaidd o salwch, bydd angen llythyr gan y meddyg teulu neu weithiwr meddygol proffesiynol ar y dysgwr a bydd cefnogaeth ar gael gan y coleg.
- Bydd cyfnodau olynol rheolaidd o salwch yn cael eu monitro a gallai hyn effeithio ar daliadau LCA.
- Bydd presenoldeb dysgwyr yn cael ei fonitro ar gyfer patrymau absenoldeb a chyfnodau rheolaidd o salwch, a gallai hyn effeithio ar daliadau LCA.
- Os bydd dysgwr yn hunanardystio salwch, yna rhaid i'r dysgwr gysylltu â'i Faes Rhaglen yn unol â'r cytundeb presenoldeb a amlinellwyd gan y tiwtor personol. Bydd y coleg yn anelu at gefnogi pob dysgwr sy'n colli coleg oherwydd salwch ac yn gweithio i sicrhau bod dysgwyr yn gallu dychwelyd i'r coleg cyn gynted â phosibl i barhau â'u hastudiaethau.
- Os bydd dysgwr yn cael anhawster i fynychu gwersi ar amser neu'n dioddef salwch rheolaidd, mae'n bwysig ei fod yn siarad â'i diwtor personol neu'n dod i'r Gwasanaethau i Ddysgwyr i ofyn am gefnogaeth.

## Rhestr wirio ysgol/coleg

Rhaid i hyn gael ei chwblhau gan yr ysgol/coleg i gadarnhau:

- Eich bod wedi esbonio i'r myfyriwr sut mae'r cynllun LCA yn gweithio, yn cynnwys monitro presenoldeb a llwyddiannau.
- Rydych wedi esbonio i'r myfyriwr y bydd yn dechrau cael ei daliadau LCA pan fyddwch yn cadarnhau ei fod wedi llofnodi ei Gytundeb LCA.
- Byddwch yn cadarnhau fod y myfyriwr wedi llofnodi ei Gytundeb LCA ar Borth y Ganolfan Ddysgu.
- Byddwch yn cadarnhau presenoldeb y myfyriwr ar Borth y Ganolfan Ddysgu yn wythnosol.

### Myfyriwr

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod



Dyddiad heddiw

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

### Ysgol/Coleg

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod



Teitl Swydd

Dyddiad heddiw

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>